| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **21 Mehefin 2012** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol**<br><br>**Adrodd ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2011-12** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno adroddiad drafft terfynol sy'n crynhoi barn y Awdurdod ar effeithlonrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a blaenoriaethau ar gyfer gwella** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Pennaeth Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'n ofyn statudol i'r Cyngor gyhoeddi 'Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol' sydd yn adrodd ar effeithiolrwydd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

1.2 Rhaid i'r adroddiad fod mewn iaith hawdd i'w ddeall gan ddweud wrth drigolion a chyfranddalwyr pa mor dda rydym yn meddwl bod Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn perfformio yng Ngwynedd. Ar ddiwedd y broses, mae'n ddisgwyliad cyflwyno'r adroddiad i Aelodau'r Cyngor.

**2. Y GYFUNDREFN**

2.1 Mae hon yn gyfundrefn sy'n unigryw i Gymru ac i Wasanaethau Cymdeithasol ble mae gofyn i'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol dderbyn cyfrifoldeb personol i adrodd mewn ffordd gyhoeddus am berfformiad a'r profiad o ddarparu gwasanaethau mewn cyd-destun lleol. Y bwriad yw uchafu cyfrifoldeb at atebolrwydd mewn ffordd dryloyw sy'n gwneud synnwyr.

2.2 Cyflwynwyd y drefn yma yn ystod 2010 ac mae disgwyl i "Bill Gwasanaethau Cymdeithasol 2012" gadarnhau ac atgyfnerthu'r disgwyliad a'r cyfrifoldeb. Mae'n broses o hunan arfarnu, lle fydd Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn cymryd i ystyriaeth yr ystod wybodaeth a phrofiadau sy'n cael effaith ar allu Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau dibynadwy a chynaliadwy o'r safon uchaf. Er bod hon yn gyfrifoldeb penodol ar y Cyfarwyddwr Statudol rhaid cyflawni'r gwaith a'r dasg mewn ffordd sy'n adlewyrchu a grymuso'r cydweithio sy'n rhan annatod o'r maes.

2.3 Mae 4 cam i'r broses, sef:

**i. Yr Adroddiad Blynyddol (a gyflwynir fel Atodiad 1).**
Dogfen gyhoeddus sy'n crynhoi barn yr Awdurdod ar effeithlonrwydd y gwasanaeth a blaenoriaethau ar gyfer gwella.

**ii. Dadansoddiad o effeithlonrwydd Gwasanaethau**

Proses manwl o hunan asesu effeithlonrwydd y gwasanaeth, cytuno ar ddyfarniad ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae angen sicrhau fod cyfranddalwyr wedi cael cyfle i herio ein hasesiad. Nid yw’n ddogfen gyhoeddus ond ar gael i bawb sydd eisiau ei weld.

**iii. Llwybr Tystiolaeth**
Rhaid casglu tystiolaeth sydd yn cyfiawnhau'r asesiad a'r dyfarniad yn yr hunan asesiad.

**iv. Cynllun busnes**
Ar gyfer cyflawni'r gwelliannau a nodir yn yr adroddiad.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.